Once Upon A Time Nursery
56 Railway Terrace
Llanelli
Carms
SA15 2RH

CIW W130000376

Once Upon A Time Day Nursery

Website
www.llanellinursery.co.uk
Phone
01554 785 173
Email
enquiries@llanellinursery.co.uk

# Polisi diogelu plant ac amddiffyn plant

Yn Once Upon a time rydym yn gweithio gyda phlant, rhieni, asiantaethau allanol a'r gymuned i sicrhau lles a diogelwch plant ac i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd. Mae gan blant yr hawl i gael eu trin â pharch, i gael eu cynorthwyo i ffynnu ac i fod yn ddiogel rhag unrhyw gamdriniaeth ym mha bynnag ffurf.

Rydym yn cefnogi'r plant yn ein gofal, yn eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin ac mae gennym weithdrefnau cadarn i atal amhariad ar iechyd a datblygiad plant.

Mae'r polisi hwn yn eistedd ochr yn ochr â'r polisïau penodol eraill yma i sicrhau bod pob agwedd o amddiffyn plant yn cael sylw:

- Diogelwch ar-lein
- Masnachu pobl a Chaethwasiaeth Fodern
- Dyletswydd 'Prevent' a Radicaleiddio
- Cam-drin Domestig, Trais ar Sail Anrhydedd (HBV) a Phriodasau dan Orfodaeth
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Ymddygiad staff
- Rhwydweithio Cymdeithasol
- Ffonau symudol a chamerâu
- Recriwtio
- Disgyblu a chwyno
- Hyrwyddo ymddygiad positif

**Y fframwaith cyfreithiol a'r diffiniad o ddiogelu**

- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Gofal Plant 2006 (diwygiwyd 2018)
- Deddf Plant a Gweithwyr Cymdeithasol 2017
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Dyletswydd Prevent 2015

Diffinnir diogelu a hyrwyddo lles plant, mewn perthynas â'r polisi hwn fel:

- Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- Atal amhariad ar eu hiechyd neu eu datblygiad gan sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol
- Sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sydd yn gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- Gweithredu i alluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau.

**Nod y polisi**

I ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles byddwn yn:

- Creu amgylchedd sy'n cefnogi plant i ddatblygu hunanddelwedd bositif
- Darparu modelau rôl positif a datblygu diwylliant diogel ble mae staff yn hyderus wrth godi pryderon ynghylch ymddygiad proffesiynol
- Annog plant i ddatblygu ymdeimlad o annibyniaeth ac ymreolaeth mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u cyfnod datblygiad
- Darparu amgylchedd diogel a saff ar gyfer pob plentyn
- Hyrwyddo goddefgarwch a'r gallu i dderbyn gwahanol gredoau, diwylliannau a chymunedau
- Gwrando ar blant ar bob achlysur
- Darparu amgylchedd ble mae ymarferwyr yn hyderus wrth adnabod plant a theuluoedd sydd efallai angen ymyrraeth, a cheisio'r cymorth sydd ei angen arnynt
- Rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill fel sy'n briodol neu fel sydd ei angen.

Mae'r feithrinfa yn ymwybodol bod camdriniaeth yn digwydd yn ein cymdeithas ac rydym yn wyliadwrus wrth adnabod arwyddion o gam-drin ac adrodd ynghylch pryderon. Mae'n ddyletswydd ar ein hymarferwyr i amddiffyn a hyrwyddo lles plant. Oherwydd yr oriau maith o ofal a ddarperir, yn aml, staff fydd y bobl gyntaf i synhwyro y gall bod problem. Mae'n ddigon posib mai nhw fydd y bobl gyntaf y bydd plant yn ymddiried ynddynt ynglŷn â chamdriniaeth, neu nhw efallai fydd yn gweld newid mewn ymddygiad plentyn a all fod yn arwydd o gam-drin.

Ein prif gyfrifoldeb yw lles a budd pob plentyn yn ein gofal. Yn hyn o beth mae gennym ddyletswydd tuag at y plant, y rhieni a'r staff i weithredu'n gyflym ac yn gyfrifol mewn unrhyw achos ddaw i'n sylw. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth gydag unrhyw asiantaethau perthnasol megis gwasanaethau awdurdod lleol ar gyfer gofal cymdeithasol plant, Cymorth i Deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd neu'r heddlu. Bydd

yr holl staff yn gweithio gydag asiantaethau eraill, ac fel rhan o dîm aml-asiantaeth, ble bo angen, er lles pennaf y plentyn.

Nod y feithrinfa yw:

- Sicrhau bod y plentyn yn ganolbwynt i bopeth a wnawn, gan ddarparu rhyngweithiadau sensitif sydd yn datblygu ac adeiladu lles, hyder a gwydnwch plant. Byddwn yn cefnogi plant i ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ac iach a sut i gael perthnasau cadarnhaol.
- Sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi o'r cyfnod sefydlu i ddeall y polisi a'r gweithdrefnau diogelu, eu bod yn effro i adnabod arwyddion posib o gam-drin, eu bod yn deall beth a olygir gan amddiffyn plant a'u bod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gall plant gael eu hanafu gan gynnwys gan blant eraill drwy fwlio neu ymddygiad gwahaniaethol.
- Bod yn ymwybodol bod mwy o berygl i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY), teuluoedd sydd wedi eu hynysu ac o nodweddion niweidiol megis effaith triawd gwenwynig ar blant a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE's).
- Sicrhau bod staff yn deall sut i adnabod arwyddion cynnar o fygythiadau radicaleiddio a therfysgaeth botensial a gweithredu'n briodol yn unol â gweithdrefnau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys drwy gyfrwng cylchlythyron diogelu blynyddol a diweddariadau
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn teimlo'n hyderus a'u bod wedi eu cefnogi i weithredu er lles pannaf y plentyn, gan gynnal chwilfrydedd proffesiynol ar destun lles plant, rhannu gwybodaeth a cheisio'r cymorth sydd ei angen o bosib ar y plentyn cyn gynted ag y bo modd.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â materion a gweithdrefnau diogelu plant a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda hyfforddiant a gweithdrefnau diogelu plant a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i weithdrefnau lleol/cenedlaethol
- Gwneud unrhyw atgyfeiriadau yn amserol gan rannu gwybodaeth fel sydd angen yn unol â gweithdrefnau a nodir gan Fwrdd Diogelu Plant
- Gwneud unrhyw atgyfeiriadau sy'n ymwneud ag eithafiaeth i'r heddlu (neu linell gymorth y Llywodraeth) yn amserol, gan rannu gwybodaeth berthnasol fel sy'n briodol
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu dim ond gyda'r bobl hynny sydd angen gwybod, er mwyn amddiffyn y plentyn ac ymddwyn er eu lles pennaf
- Cadw'r lleoliad yn ddiogel ar-lein drwy ddefnyddio hidlwyr, gwiriadau a mesurau diogelu priodol, gan fonitro mynediad ar bob achlysur a chynnal gweithdrefnau diogelu ar y defnydd o dechnoleg gan staff, rheini ac ymwelwyr i'r lleoliad.
- Sicrhau nad yw plant byth yn cael eu rhoi mewn perygl pan yng ngofal staff y feithrinfa
- Adnabod newidiadau mewn ymddygiad staff a gweithredu ar y rhain yn unol â'r Polisi Ymddygiad Staff
- Cymryd unrhyw gamau priodol mewn perthynas â honiadau o niwed difrifol neu gam-drin a wneir yn erbyn unrhyw berson sy'n gweithio gyda phlant, neu sy'n byw neu'n

gweithio yn eiddo’r feithrinfa gan gynnwys adrodd honiadau o’r fath i AGC, Swyddog yr Awdurdod Lleol ac awdurdodau perthnasol eraill.

- Sicrhau bod rhieni yn llwyr ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant wrth gofrestru gyda’r feithrinfa a’u bod yn derbyn diweddariadau wrth iddynt ddigwydd
- Adolygu’n rheolaidd a diweddaru’r polisi hwn gyda staff a rhieni ble mae hynny’n briodol a sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ganllawiau neu weithdrefnau a gyhoeddir gan Fwrdd Diogelu Plant

**Rhifau teleffon cyswllt**

*AGC **0300 790 0126**

Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant **MARF**

Tim Cyfeirio Canolog 01554 742322

Gwasanaethau Cymdeithasol y tu allan i oriau 07558 825482

Llinell hysbysu'r heddlu ynghylch achosion nad ydynt yn rai brys **101**

Llinell gymorth y Llywodraeth ar gyfer pryderon ynghylch eithafiaeth **0207340 7264**

Llinell gymorth NSPCC ar gyfer chwythu'r chwiban **0800 028 0285**

Childline NSPCC **0800 1111**

**Mathau o gam-drin a’r gweithdrefnau penodol i’w dilyn**

Mae cam-drin ac esgeuluso yn ffurfiau o drin plentyn yn wael. Gall person gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy eu niweidio, neu drwy fethu ag ymddwyn i atal niwed. Mae’n bosib i blant gael eu cam-drin mewn lleoliad teulu, sefydliad, neu gymuned gan bobl maent yn eu hadnabod neu yn fwy anaml gan ddieithriaid. Gall y bobl yma fod yn oedolyn neu oedolion, yn blentyn neu’n blant eraill.

Efallai na fydd yr arwyddion a restrir isod o reidrwydd yn arwydd bod y plentyn wedi ei gam-drin, ond bydd yn ein galluogi i adnabod bod rhywbeth o’i le efallai, yn enwedig os yw plentyn yn dangos nifer o’r symptomau yma neu unrhyw un ohonynt i raddau amlwg.

**Arwyddion o gam-drin plentyn**

- Methu ffynnu a chwrdd â cherrig milltir datblygiadol
- Plentyn sy’n ofnus neu sy’n arddangos tueddiadau encilgar

- Anafiadau i blentyn na ellir eu hesbonio neu adroddiadau anghyson gan rieni neu staff
- Anafiadau mynych
- Afiechydon neu anafiadau sy’n mynd heb gael sylw
- Newidiadau arwyddocaol i batrymau ymddygiad.

Ymysg yr arwyddion mwy meddal o gam-drin yn ôl diffiniad Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) mae:

- Hunan barch isel
- Yn ofnus
- Hunllefau rheolaidd
- Gwlychu a baeddu
- Ymddygiad ymosodol
- Yn gwrthod cyfathrebu
- Siglo’n ôl ac ymlaen yn gyson
- Cyswllt heb wahaniaethu neu’n ceisio anwyldeb
- Yn or-gyfeillgar tuag at ddieithriaid
- Yn ymlynu’n ormodol
- Eisiau sylw gydol yr amser.

**Cam-drin rhwng cyfoedion**

Rydym yn ymwybodol bod camdriniaeth yn gallu digwydd rhwng cyfoedion, felly rydym yn cynnwys plant yn ein polisïau wrth sôn am gamddefnyddwyr potensial. Gall ddigwydd ar ffurf bwlio, plentyn yn anafu plentyn arall yn gorfforol, camdriniaeth emosiynol, neu rywiol. Byddwn yn adrodd ynghylch hyn yn yr un modd ag y gwnawn ar gydag oedolion yn cam-drin plant, gan geisio cyngor gan gyrff priodol ar y maes hwn.

**Camdriniaeth gorfforol**

Rhaid i staff weithredu os oes ganddynt reswm i gredu bod plentyn wedi derbyn niwed corfforol, a allai gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu beri niwed corfforol arall i blentyn. Gall y symptomau yma gynnwys cleisiau neu anafiadau i ardal sy’n anarferol i blentyn, e.e. rhannau cigog o’r breichiau a’r coesau, y cefn, arddyrnau, ffêr a’r wyneb.

**Salwch ffug**

Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau, neu’n mynd ati’n fwriadol i beri, salwch mewn plentyn. Mae’n bosib y bydd y rhiant neu’r gofalwr yn mynd ati i geisio triniaeth neu archwiliad meddygol diangen. Gallent orliwio salwch a

symptomau gwirioneddol neu fynd ati’n fwriadol i beri salwch drwy wenwyno gyda moddion neu sylweddau eraill, neu fe allent ymyrryd â thriniaethau meddygol. Mae salwch ffug yn ffurf ar gamdriniaeth gorfforol, a bydd unrhyw bryderon yn cael eu hadrodd gan ddilyn ein gweithdrefnau diogelu.

Bydd gan lawer o blant friwiau a chrafiadau o anafiadau arferol plentyndod – dylid cofnodi’r rhain hefyd a’u trafod gyda rheolwr y feithrinfa neu’r arweinydd ystafell.

**Anffurfio organau cenhedlu benywod**

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu benywod (neu FGM) yn weithred ble mae organau cenhedlu benywod yn cael eu hanafu neu eu newid ac nid oes unrhyw reswm meddygol dros hyn. Mae’r math yma o gam-drin corfforol yn digwydd fel defod ddiwylliannol mewn rhai grwpiau ethnig. Pan fo’r weithred yma yn digwydd mae’n ddibynnol ar y gymuned ac fe all ddigwydd yn fuan wedi genedigaeth, yn ystod plentyndod, yn ystod blaenlencyndod, cyn priodi neu yn ystod beichiogrwydd cyntaf menyw. Gall y weithred beri poen difrifol ac mae’n bosib y bydd canlyniadau iechyd uniongyrchol a/neu rhai hirdymor, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, haint wrinol, septisemia, anymataliaeth, problemau gyda rhoi genedigaeth, gan achosi perygl i’r plentyn a’r fam; a/neu farwolaeth.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch plentyn neu deulu, dylech gysylltu â’r tîm gofal cymdeithasol i blant yn yr un modd ag y byddech yn ei wneud gyda mathau eraill o gam-drin corfforol. Mae gennym ddyletswydd orfodol i adrodd i'r heddlu ynghylch unrhyw achos ble ymddengys bod gweithred o anffurfio organau cenhedlu benywod wedi digwydd ar ferch dan 18 mlwydd oed.

**Smwddio’r Fron**

Smwddio’r fron, sydd hefyd yn cael ei alw’n “fflatio’r fron” yw’r broses ble mae bronnau merched ifanc yn cael eu smwddio, eu tylino a/neu eu gwastatáu drwy ddefnyddio gwrthrychau caled neu rai wedi eu cynhesu er mwyn i’r bronnau ddiflannu neu i ohirio datblygiad y bronnau yn gyfan gwbl. Y gred yw, drwy wneud hyn, y bydd merched ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu haflonyddu, eu treisio, cipio a phriodas gynnar dan orfod. Er bod hyn yn annhebygol o ddigwydd i blant yn y feithrinfa oherwydd eu hoed, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymateb i unrhyw arwyddion mewn oedolion ifanc neu blant hŷn gan ddefnyddio’r prosesau cyfeirio arferol ar gyfer diogelu.

**Camdriniaeth rywiol**

Camdriniaeth rywiol yw gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nid o reidrwydd rhai sy'n cynnwys lefel uchel o drais, boed y plentyn yn ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gall y gweithgareddau fod yn gyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddiad (er enghraifft rhyw geneuol) neu weithredoedd anhreiddiol megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad. Gallent hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, er enghraifft plant yn edrych ar, neu yn rhan o'r broses o gynhyrchu delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn modd sy'n rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn i bwrpas eu cam-drin yn rhywiol. Gall cam-drin rhywiol ddigwydd ar-lein, ac mae modd defnyddio technoleg i hwyluso cam-drin sy'n digwydd all-lein. Nid gwrywod sy'n oedolion yw'r unig rai sydd yn cam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd fod yn euog o gam-drin yn rhywiol, fel y gall plant eraill.

Rhaid gweithredu os yw aelod o staff wedi gweld achlysur(on) ble mae plentyn wedi awgrymu gweithgaredd rhywiol drwy eiriau, chwarae, darlunio, yn dangos diddordeb gormodol mewn materion rhywiol, neu'n arddangos gwybodaeth amhriodol i'w hoed datblygiadol o ymddygiad neu iaith rywiol sy'n perthyn i oedolion. Gall hyn gynnwys ailadrodd ymddygiad rhywiol ar ddoliau/teganau neu yn yr ardal chwarae rôl gyda'u cyfoedion, gwneud darluniau sy'n amhriodol i blentyn, siarad am weithgareddau rhywiol neu ddefnyddio iaith neu eiriau rhywiol.

Ymysg symptomau corfforol mae trawma i'r genitalia, rhedlif, a chleisiau rhwng y coesau neu arwydd o afiechyd a drosglwyddir yn rhywiol (STD). Gall y symptomau emosiynol gynnwys newid amlwg yn ymddygiad y plentyn. Mae'n bosib eu bod yn ymgilio neu'n ormodol allblyg a chymdeithasgar. Mae'n bosib y byddent yn cilio oddi wrth oedolyn penodol ac yn aflonyddu wrth iddynt ymestyn amdanynt, ond hefyd gallent ymlynu'n ormodol neu fod arbennig o 'clingy' felly dylid edrych ar yr holl symptomau ac arwyddion gyda'i gilydd a'u hasesu yn eu cyfanrwydd.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)**

Mae CSE yn cael ei ddiffinio fel ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, neu ddylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 mlwydd oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth mae'r dioddefwr eisiau, a/neu (b) er lles ariannol neu gynnydd mewn statws y tramgwyddwr neu'r hyrwyddwr. Mae'n bosib bod y dioddefwr wedi profi cam-fanteisio rhywiol hyd yn oed os yw'r weithgaredd rywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid oes cyswllt corfforol bob tro gyda cham-fanteisio'n rhywiol ar blentyn; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg.

Byddwn yn ymwybodol o bosibilrwydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'r arwyddion a'r symptomau posib o hyn. Os byd gennym unrhyw bryderon byddwn yn dilyn yr un weithdrefn â'r rhai ar gyfer pryderon eraill a byddwn yn cofnodi a chyfeirio fel sy'n briodol.

**Camdriniaeth emosiynol**

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn diffinio camdriniaeth Emosiynol fel camdriniaeth emosiynol di-baid sy'n digwydd i blentyn, gymaint fel ei fod yn peri effeithiau niweidiol difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall hyn gynnwys cyfleu i blentyn eu bod yn ddiwerth neu heb eu caru, yn annigonol, neu yn cael eu gwerthfawrogi dim ond os ydynt yn cwrdd ag anghenion person arall. Gall gynnwys peidio rhoi cyfleoedd i blentyn fynegi eu barn, eu tawelu'n fwriadol neu 'gwneud hwyl' o'r hyn maent yn ei ddweud neu sut maent yn cyfathrebu. Gall gynnwys disgwyliadau yn cael eu gosod ar blant sy'n amhriodol o ran oed a datblygiad. Gall y rhain gynnwys rhyngweithiadau sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn, yn ogystal â goramddiffyn a chyfyngu ar archwilio a dysgu, neu atal y plentyn rhag cymryd rhan mewn rhyngweithiadau cymdeithasol arferol. Gall gynnwys weld neu glywed person arall yn cael eu cam-drin. Gall fod yn fwlio difrifol (gan gynnwys seiber fwlio), peri i blant deimlo dychryn yn aml neu deimlo eu bod mewn perygl, neu ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gamdriniaeth emosiynol yn perthyn i bob math o gamdriniaeth sy'n digwydd i blentyn, er fe all ddigwydd ar ei ben ei hun.

Ymysg yr arwyddion bod plentyn yn cael ei gamdrin yn emosiynol mae: cilio oddi wrth oedolyn sydd yn eu cam-drin, mynd i'w cragen, yn ymosodol neu lynu'n dynn er mwyn derbyn eu cariad a'u sylw, diffyg ymlyniad agos gyda'u rhiant/gofalwr, ymddangos yn ddihyder neu'n bryderus neu fod yn ymosodol tuag at eraill.

Gall plant hefyd brofi camdriniaeth emosiynol drwy fod yn dyst i gam-drin yn y cartref a gweld oedolion sydd yn gofalu amdanynt yn cam-drin alcohol a chyffuriau.

**Esgeuluso**

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn diffinio Esgeuluso fel methiant parhaus i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sydd yn debygol o achosi nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd os yw'r fam yn cam-drin sylweddau. Unwaith i'r plentyn gael ei eni, gall esgeuluso ddigwydd pan fo methiant gan riant neu ofalwr i:

a. Darparu bwyd, dillad a chysgod digonol (gan gynnwys eu cau allan o'r cartref neu gefnu arnynt)
b. Amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol

c. Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio darparwyr gofal sydd yn annigonol)
d. Sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol

Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu ddiffyg ymateb, i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

Gall yr arwyddion gynnwys plentyn sy'n cyrraedd y feithrinfa yn gyson heb ymolchi neu'n flêr, yn gwisgo dillad sy'n rhy fach (yn enwedig esgidiau sy'n gallu cyfyngu twf y plentyn neu eu brifo), cyrraedd y feithrinfa yn yr un cewyn â'r un yr aethant adref ynddo neu riant ddim yn ymateb i afiechyd sydd ar y plentyn. Gall plentyn hefyd fod yn llwglyd drwy'r amser os yw rhiant yn atal bwyd neu os nad yw'n darparu digon ar gyfer anghenion y plentyn.

Mae esgeuluso i'w weld hefyd drwy arwyddion emosiynol, e.e. mae'n bosib nad yw plentyn yn derbyn y sylw maent ei angen gartref a'i fod yn chwilio am gariad a chefnogaeth yn y feithrinfa. Mae'n bosib eu bod yn glynu'n dynn ac yn emosiynol. Hefyd, gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd os yw'r fam yn cam-drin sylweddau.

Dylid gweithredu dan y pennawd hwn os oes gan aelod o staff reswm i gredu bod plentyn wedi ei esgeuluso mewn unrhyw fodd.

**Camfanteisio'n Droseddol ar Blant (CCE)**

Y disgrifiad o gam-fanteisio'n droseddol ar blant (CCE) yw pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i berswadio, rheoli, dylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 mlwydd oed. Mae'n bosib y bydd y dioddefwr wedi ei ecsbloetio'n droseddol hyn yn oed os yw'r weithred yn ymddangos yn gydsyniol. Nid oes raid i gyswllt corfforol ddigwydd wrth Gamfanteisio'n Droseddol ar Blant; gall ddigwydd hefyd drwy ddefnyddio technoleg.

**Llinellau Sirol**

Llinellau Sirol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol sydd yn ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon o ddinasoedd mawr i drefi llai gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol penodol neu ffurf arall o "linell ddelio". Bydd cwsmeriaid yn byw mewn ardal wahanol i'r delwyr a'r rhwydweithiau, ac felly maent yn defnyddio rhedwyr cyffuriau i gludo'r cyffuriau a chasglu'r arian.

Maent yn debygol fanteisio ar blant ac oedolion agored i niwed i symud y cyffuriau a'r arian ac yn abl maent yn defnyddio perswâd, bygythion, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

Ymysg yr arwyddion posib bod plant yn ymwneud â Llinellau Sirol mae newid mewn ymddygiad, bod ganddynt fwy o arian neu eiddo, newid mewn grwpiau ffrindiau, cilio o fywyd teuluol, newid sydyn mewn ymddangosiad, anafiadau corfforol nad oes modd eu hegluro, aros allan yn hwyr gyda'r nos neu ddiffyg diddordeb yn yr ysgol a gweithgareddau cadarnhaol oedd ganddynt gynt.

**Cam-drin Domestig / Trais ar sail Anrhydedd / Priodasau dan Orfod**

Rydym yn ystyried y meysydd hyn i fod yn bryder diogelu plant. Gweler y polisi ar wahân am ragor o fanylion ynghylch hyn.

**Eithafiaeth - Dyletswydd Prevent**

Dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mae dyletswydd arnom i atgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch eithafiaeth i'r heddlu (Mewn ardaloedd blaenoriaeth Prevent bydd gan yr awdurdod lleol arweinydd Prevent sydd hefyd ar gael i ddarparu cefnogaeth).

Gall y rhesymau dros gyfeirio gynnwys pryder sy'n ymwneud â newid mewn ymddygiad plentyn neu aelod o'r teulu, sylwadau sy'n peri pryder a wnaed wrth aelod o'r tîm (neu bersonau eraill yn y lleoliad) neu weithredoedd sy'n gwneud i staff boeni am ddiogelwch plentyn yn eu gofal. Mae gennym ni bolisi Dyletswydd Prevent a Radicaleiddio. Gofynnwn ichi gyfeirio at y polisi hwn am fanylion penodol.

**Diogelwch Ar-lein**

Rydym yn rhoi pwys mawr ar ddiogelwch ein plant ac mae hyn yn cynnwys eu diogelwch ar-lein. Gweler y polisi Diogelwch Ar-lein am ragor o fanylion ynghylch hyn.

**Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth**

Gweler ein polisi Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth am fanylion ynghylch sut rydym yn cadw plant yn ddiogel yn y maes hwn.

**Camfanteisio'n Rywiol ar Oedolion**

Fel rhan o'n gweithdrefnau diogelu byddwn hefyd yn sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael ei diogelu rhag unrhyw gam-fanteisio rhywiol.

**Cam-drin Plant sy'n gysylltiedig â ffydd neu gred (CALFB)**

Gall cam-drin plant sy'n gysylltiedig â ffydd neu gred (CALFB) ddigwydd mewn teuluoedd pan fônt yn credu mewn:

- Dewiniaeth a meddiannu gan ysbrydion, cythreuliaid neu'r diafol yn gweithredu drwy blant neu yn eu harwain ar gyfeiliorn (i'w gweld yn draddodiadol mewn rhai credoau Cristnogol),
- llygad drwg neu djinns (i'w gweld yn draddodiadol mewn rhai cyd-destunau ffydd Islamaidd) a dakini (yn y cyd-destun Hindŵaidd);
- Llofruddiaethau defodol neu luosog ble credir bod lladd plant yn rhoi buddion goruwchnaturiol neu fod defnyddio rhannau o'u cyrff yn creu meddyginiaethau swynol grymus.
- Defnyddio cred mewn swyn neu ddewiniaeth i beri ofn mewn plant i'w gwneud yn fwy ufudd wrth iddynt gael eu masnachu i ddibenion caethwasiaeth domestig neu gam-fanteisio'n rhywiol.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac fe fydd enghreifftiau eraill ble mae plant wedi eu niweidio pan fo oedolion yn credu bod eu gweithredoedd wedi esgor ar anffawd.

**Gweithdrefn adrodd**

Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i adrodd am faterion diogelu ac unrhyw amheuaeth o gamdriniaeth. Bydd y pryderon hyn yn cael eu trafod gyda'r cydlynydd diogelu dynodedig (CDD) cyn gynted ag y bo modd.

- Bydd staff yn adrodd eu pryderon i'r CDD (yn absenoldeb y CDD cânt eu hadrodd i'r Dirprwy CDD)
- Bydd unrhyw arwyddion o farciau/anafiadau i blentyn neu wybodaeth a roddodd plentyn yn cael ei gofnodi a'i stori'n ddiogel
- Ar gyfer plant sydd yn cyrraedd y feithrinfa gydag anaf cyfredol, bydd ffurflen yn cael ei chwblhau ynghyd ag eglurhad y rhiant/gofalwr am sut digwyddodd yr anaf. Bydd gan staff chwilfrydedd proffesiynol ynghylch unrhyw eglurhad sy'n cael ei roi, a bydd unrhyw bryderon ynghylch anafiadau cyfredol yn cael eu hadrodd.
- Os yn briodol, bydd unrhyw bryderon neu ddigwyddiad yn cael ei drafod gyda'r rhiant/gofalwr, caiff y trafodaethau hyn eu cofnodi a bydd gan y rhiant fynediad i'r cofnodion hyn o wneud cais i'w gweld yn unol â chanllawiau GDPR a Diogelu Data.
- Os oes unrhyw ymholiadau/pryderon am yr anaf/gwybodaeth a roddwyd yna bydd y gweithdrefnau canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

Bydd yr arweinydd diogelu dynodedig yn:

- Cysylltu â thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol i adrodd am bryderon ac i geisio cyngor yn ddi-oed neu cyn gynted ag y mae'n ymarferol gwneud hynny, ac os

ydym o'r farn bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol byddwn yn cysylltu â'r heddlu. Os yw'r pryder diogelu yn ymwneud â honiad yn erbyn oedolyn yn gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant yna bydd y CDD yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am honiadau (gweler isod).

- Hysbysu AGC
- Cofnodi'r wybodaeth a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r pryder a godwyd
- Siarad â'r rhieni (heblaw bod tîm gofal cymdeithasol plant yr ALl yn ein cynghori i beidio â gwneud hyn)
- Bydd yr arweinydd diogelu dynodedig yn gwirio camau gweithredu a gymerodd tîm gofal cymdeithasol plant yr ALl os nad ydynt wedi cysylltu â'r lleoliad o fewn y terfyn amser statudol.

Cadw plant yn ddiogel yw'r flaenoriaeth uchaf gennym, ac os nad yw staff, am ba bynnag reswm, yn teimlo eu bod yn gallu adrodd pryderon i'r CDD neu i'r Dirprwy CDD, dylent alw tîm gofal cymdeithasol plan yr Awdurdod Lleol neu'r NSPCC ac adrodd am eu pryderon yn ddienw.

**Ymateb i Ddatgeliad Dirybudd gan blentyn**

Os yw plentyn yn dechrau siarad yn agored gydag aelod o staff am gamdriniaeth sydd o bosib yn digwydd iddynt, yna bydd staff yn :

- Rhoi eu sylw llawn i'r plentyn neu'r person ifanc
- Cadw iaith y corff yn agored ac yn galonogol.
- Dangos tosturi, dealltwriaeth a sicrhau eu bod yn deall bod eu teimladau yn bwysig. Geiriau fel 'rwyt ti wedi bod mor ddewr heddiw'
- Cymryd eu hamser ac arafu: byddwn yn parchu seibiannau ac ni fyddwn yn torri ar draws y plentyn – gadael iddynt fynd ar eu cyflymder eu hunain.
- Adnabod ac ymateb i iaith y corff ganddynt.
- Ei gwneud yn eglur fod gennych ddiddordeb yn yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud.
- Myfyrio ar yr hyn maent wedi ei ddweud a gwirio eich dealltwriaeth - a defnyddio eu hiaith i ddangos mai eu profiad nhw ydy o.
- Tawelu meddwl y plentyn eu bod wedi gwneud y peth iawn wrth ddweud wrthoch chi. Sicrhau eu bod yn gwybod nad ydynt byth ar fai os ydynt yn cael eu cam-drin.
- Peidio byth â siarad gyda'r troseddwr honedig am ddatgeliad y plentyn. Fe allai hyn ei gwneud hi'n llawer gwaeth ar gyfer y plentyn (gwybodaeth a gafwyd gan yr NSPCC).

Bydd unrhyw ddatgeliad yn cael ei adrodd i reolwr y feithrinfa neu'r CDD a'i gyfeirio yn syth at y tîm gofal cymdeithasol plant yn yr awdurdod lleol, gan ddilyn ein gweithdrefnau adrodd.

**Cofnodi Amheuon o Gamdriniaeth a Datgeliadau**

Dylai staff wneud cofnod gwrthrychol o unrhyw arsylwad neu ddatgeliad, gyda chefnogaeth rheolwr y feithrinfa neu'r CDD. Dylai'r cofnodi yma gynnwys:

- Enw'r plentyn
- Cyfeiriad y plentyn
- Oed a dyddiad geni'r plentyn
- Dyddiad ac amser yr arsylwad neu'r datgeliad, lleoliad.
- Yr union eiriau ddywedodd y plentyn (gair am air) a chyfathrebu dieiriau.
- Union leoliad a'r math o anafiadau neu farciau a welwyd.
- Union arsylwadau o unrhyw ddigwyddiad gan gynnwys unrhyw bryder yr adroddwyd yn ei gylch, gyda'r dyddiad a'r amser; ac enwau unrhyw bersonau oedd yn bresennol ar y pryd.
- Unrhyw drafodaeth a gafwyd gyda'r rhiant/rhieni (pan ystyrir hynny i fod yn briodol).

Dylai'r person sy'n adrodd am y pryder, a'r *rheolwr/*CDD/*goruchwyliwr arwyddo'r cofnodion yma, eu dyddio a'u cadw mewn ffeil gyfrinachol ar wahân.

Os yw plentyn yn dechrau siarad ag oedolyn am gam-drin potensial mae'n bwysig nad yw addewid o gyfrinachedd llwyr yn cael ei wneud. Nid oes modd cadw'r addewid yma. Mae'n hanfodol bod y plentyn yn cael siarad yn agored ac nad oes pwysau yn cael ei roi arno/arni i ddatgelu, na geiriau yn cael eu rhoi yng ngheg y plentyn. Rhaid i fanylion pwysig gael eu cofnodi'n gywir cyn gynted â phosib wedi'r datgeliad. Nid rôl y feithrinfa yw ymchwilio, rôl y gwasanaethau statudol yw hi i ymgymryd â hyn.

Mae'n bosib y bydd angen i staff sy'n rhan o achos diogelu ddarparu manylion ynghylch unrhyw wybodaeth/pryderon sydd ganddynt am blentyn. Mae'r feithrinfa yn disgwyl i bob aelod o staff gydymffurfio gyda thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, yr heddlu, ac Ofsted mewn unrhyw ffordd i sicrhau diogelwch y plant.

Mae'n bwysig nad yw staff yn gwneud unrhyw sylwadau, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat, am ymddygiad honedig neu wirioneddol gan riant, plentyn neu aelod o staff.

**Hysbysu rhieni**

Fel rheol, rhieni yw'r pwynt cyswllt cyntaf. Os oes amheuaeth yn cael ei gofnodi ynglŷn â chamdriniaeth, hysbysir y rhieni wrth i'r adroddiad gael ei wneud, heblaw pan nad yw canllawiau tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol/heddlu yn caniatáu hyn. Dyma sydd yn digwydd fel rheol os mai'r rhiant neu aelod o'r teulu yw'r camdriniwr tebygol, neu ble gall

y plentyn fod mewn perygl oherwydd y datgeliad. Yn yr achosion yma bydd y swyddogion ymchwilio yn hysbysu'r rhieni.

**Cyfrinachedd**

Mae pob amheuon, ymholiadau ac ymchwiliadau allanol i gael eu cadw'n gyfrinachol a'u rhannu dim ond gyda'r bobl hynny sydd angen gwybod. Rhennir unrhyw wybodaeth yn unol â chanllawiau gan yr awdurdod lleol. Rhaid i bob aelod o staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr gadw cyfrinachedd, ac nid ydynt i drafod unrhyw fater y tu allan i'r gwaith. Os digwydd hyn bydd yn fater disgyblu.

Mae'r Feithrinfa yn rhoi sylw dyledus i egwyddorion diogelu data fel y'u nodwyd yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Nid yw'r rhain yn gwahardd casglu data na rhannu gwybodaeth bersonol, hyd yn oed heb gydsyniad pe byddai hyn yn gosod y plentyn mewn perygl pellach. Byddwn yn dilyn yr egwyddorion ar gyfer casglu data a rhannu gwybodaeth ac yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu mewn modd priodol.

**Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd**

Mae'r feithrinfa yn cymryd pob cam posib i adeiladu perthnasau ymddiriedus a chefnogol ymysg teuluoedd, staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr o fewn y feithrinfa.

Mae'r feithrinfa yn parhau i groesawu'r plentyn a'r teulu tra bo ymholiadau ar fyn mewn perthynas â cham-drin yn lleoliad y cartref. Bydd rhieni a theuluoedd yn cael eu trin â pharch mewn modd am-feirniadol tra bod unrhyw ymchwiliadau allanol yn cael eu cynnal, er lles pennaf y plentyn.

**Cadw Cofnodion**

Bydd cofnodion cyfrinachol am y plentyn yn cael eu rhannu gyda rhieni'r plentyn neu eraill sydd â gofal rhiant dros y plentyn, dim ond os yw hynny'n briodol yn unol â chanllawiau'r awdurdod lleol, ar yr amod mai diogelwch a gofal dros y plentyn sydd bennaf. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i gefnogi a gweithio gyda theulu'r plentyn .

Mae'r Feithrinfa yn cadw cofnodion priodol i gefnogi'r dasg o adnabod yn fuan plant a theuluoedd a allai elwa o dderbyn cefnogaeth. Mae cofnodion ffeithiol yn cael eu cadw mewn trefn amser gyda thrafodaethau gyda'r rhieni. Mae cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y CDD er mwyn gallu adnabod anghenion y plentyn mewn modd cyfannol.

**Honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio neu sy'n gwirfoddoli gyda phlant**

Os oes honiad yn cael ei wneud yn erbyn aelod o staff, myfyriwr neu wirfoddolwr neu unrhyw berson arall sy'n byw neu sy'n gweithio yn adeilad y feithrinfa, pa un ai a yw'r honiad yn ymwneud ag adeilad y feithrinfa neu fan arall, byddwn yn dilyn y weithdrefn isod.

Bydd hyn yn cynnwys pan fo honiad bod aelod o staff wedi:

- ymddwyn mewn modd a berodd niwed i blentyn, neu a allai fod wedi peri niwed i blentyn
- cyflawni trosedd o bosib yn erbyn plentyn,
- neu gysylltu â phlentyn neu ymddwyn tuag blentyn neu blant mewn modd sy'n dynodi y byddai perygl o niwed petai ef/hi yn gweithio'n rheolaidd neu'n agos gyda phlant.

Dylid hysbysu'r uwch-reolwr sydd ar ddyletswydd ynghylch yr honiad. Os mai'r person yma yw testun yr honiad yna dylid adrodd i'r berchennog, person cofrestredig, CDD neu is-reolwr.

Yna bydd Swyddog yr Awdurdod Lleol (SALl), AGC a'r BRhDP yn cael eu hysbysu'n ddi-oed er mwyn i'r cyrff priodol fedru cynnal eu harchwiliadau yn syth:

- Byddwn yn hysbysu'r SALl ar unwaith am gyngor a chanllawiau
- Os byddwch yn teimlo fel unigolyn na chaiff hyn ei gymryd o ddifri neu eich bod yn poeni y gallai'r person dan sylw ddod i wybod am yr honiad yna mae'n ddyletswydd arnoch i hysbysu'r SALl yn uniongyrchol
- Bydd ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal gan y gweithwyr proffesiynol priodol (SALl, AGC, BRhDP) i bennu sut mae'r mater i gael ei drafod
- Bydd y feithrinfa yn dilyn pob cyfarwyddyd gan AGC, BRhDP ac yn gofyn i bob aelod o staff wneud yr un peth a chydweithredu pan fo angen
- Bydd cymorth yn cael ei ddarparu i bob person sydd yn gysylltiedig â'r honiad gydol yr archwiliad allanol yn unol â chefnogaeth a chyngor SALl
- Mae'r feithrinfa yn cadw'r hawl i atal unrhyw aelod o staff rhag gweithio yn ystod ymchwiliad. Byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.
- Bydd pob ymholiad/ymchwiliadau allanol/cyfweliadau yn cael eu dogfennu a'u cadw mewn ffeil wedi ei chloi a bydd gan yr awdurdodau perthnasol fynediad atynt
- Os yw honiadau yn ddi-sail yna bydd pob hawl yn cael ei ailsefydlu
- Bydd honiadau ag iddynt sail yn cael eu cyfeirio at y mudiadau perthnasol gan gynnwys tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a phan fod lle i gredu bod trosedd wedi ei chyflawni, yr heddlu, a chanlyniad hyn fydd diswyddo. Bydd AGC yn cael eu

hysbysu'n syth o'r penderfyniad hwn. Bydd y feithrinfa hefyd yn hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o ran ystyriaethau gwahardd

- Bydd pob cofnod yn cael ei gadw hyd nes bo'r person yn cyrraedd oed ymddeol arferol neu am 10 os yw hyn yn gyfnod hirach. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael er gwybodaeth a gwiriadau DBS yn y dyfodol ac mae'n osgoi unrhyw ail-ymchwiliad diangen
- Mae'r feithrinfa yn cadw'r hawl i ddiswyddo unrhyw aelod o staff mewn cysylltiad â honiadau ag iddynt sail yn dilyn ymholiad
- Mewn achosion o honiadau di-sail bydd pob hawl yn cael eu hadfer.
- Bydd cwnsela ar gael ar gyfer unrhyw aelod o staff y feithrinfa a effeithiwyd gan honiad, eu cydweithwyr yn y feithrinfa a'r rhieni.
- Bydd cynllun dychwelyd i'r gwaith yn cael sefydlu ar gyfer unrhyw aelod io staff sydd yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn honiad a gafwyd yn ddi-sail. Bydd cymorth unigol yn cael ei gynnig i gwrdd ag anghenion yr aelod unigol o staff a natur y digwyddiad. Gall hyn gynnwys goruchwylio mwy cyson, hyfforddi a mentora a chymorth allanol.

**Monitro presenoldeb plant**

Mae'n ofynnol inni fonitro patrymau presenoldeb plant i sicrhau eu bod yn gyson ac nad oes unrhyw achos i bryderu.

Dylai rhieni hysbysu'r feithrinfa cyn i'w plant gymryd gwyliau neu ddyddiau i ffwrdd, a dylid hysbysu'r feithrinfa ynghylch pob salwch ar y dydd er mwyn i reolwyr y feithrinfa fedru nodi'r rheswm dros absenoldeb y plentyn.

Os nad yw plentyn wedi cyrraedd y feithrinfa o fewn awr i'w hamser dechrau arferol bydd y feithrinfa yn galw'r rhieni i wneud yn siŵr bod y plentyn y ddiogel ac yn iach. Os nad os modd cael gafael ar y rhieni yna bydd y feithrinfa yn defnyddio'r rhifau cyswllt pellach mewn argyfwng i sicrhau bod pob parti yn ddiogel.

Pan fo plentyn yn destun cynllun amddiffyn plant, neu yn ystod proses gyfeirio, bydd y feithrinfa yn hysbysu tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol yn ddi-oed ynghylch unrhyw absenoldeb i sicrhau bod y plentyn yn parhau i gael ei ddiogelu/diogelu.

Ni ddylai hyn atal rhieni rhag treulio amser gwerthfawr gyda'u plant, ond mae'n fodd i bresenoldeb y plant gael ei gofnodi er mwyn inni wybod bod y plentyn yn ddiogel.

**Plant sy'n derbyn gofal**

Fel rhan o'n hymarfer diogelu byddwn yn sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o sut i gadw plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel. Er mwyn gwneud hyn gofynnwn am wybodaeth ynghylch:

- Statws cyfreithiol y plentyn (h.y. a yw'r plentyn yn derbyn gofal dan drefniadau gwirfoddol gyda chydsyniad y rhieni, neu ar orchymyn gofal dros dro neu lawn)
- Trefniadau cyswllt ar gyfer y rhieni biolegol (neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant)
- Trefniadau gofal y plentyn a'r lefelau awdurdod sydd wedi eu dirprwyo i'r gofalwr gan yr awdurdod sy'n edrych ar ei ôl/ei hol
- Manylion gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac unrhyw asiantaethau cymorth eraill sydd â diddordeb
- Unrhyw gynllun amddiffyn plant neu gynllun gofal sydd wedi ei sefydlu ar gyfer y plentyn dan sylw.

Gweler y polisi Plant sy'n Derbyn Gofal am ragor o fanylion.

**Staffio a gwirfoddoli**

Ein polisi yw darparu amgylchedd diogel a saff ar gyfer pob plentyn. Dim ond oedolyn sydd wedi eu cyflogi gan y feithrinfa i ofalu am blant, ac sydd â gwiriad manylach gyda gwiriad rhestri gwahardd (plant) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gaiff fod ar eu pen eu hunain gyda phlant. Nid ydym yn caniatáu i wirfoddolwyr, nag unrhyw oedolyn arall sydd yn y feithrinfa fod ar eu pen eu hunain gyda'r plant pa un ai a oes ganddynt dystysgrif DBS ai peidio.

Bydd pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant amddiffyn plant, ac i ddechrau, yn ystod eu cyfnod sefydlu a byddent yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Bydd hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer adnabod yr arwyddion a'r ymddygiad sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth, ac adnabod camdriniwr/camdrinwyr potensial, cofnodi ac adrodd am bryderon a chreu amgylchedd diogel a saff ar gyfer y plant yn y feithrinfa. Yn ystod y sesiwn sefydlu bydd staff yn cael manylion swyddog yr awdurdod lleol (SALl), tîm gwasanaethau plant yr awdurdod lleol, Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) ac AGC i'w galluogi i adrodd am unrhyw bryderon diogelu, yn annibynnol, os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny.

Mae addasrwydd parhaus staff yn cael ei fonitro drwy:

- Goruchwylio yn rheolaidd
- Arsylwadau gan gymheiriaid
- Datganiad blynyddol o addasrwydd staff
- Cymwyseddau diogelu

- Adolygiad rheolaidd o bob DBS gan ddefnyddio’r gwasanaeth diweddaru ar-lein.

**Arweinydd Diogelu Dynodedig**

Mae gennym bersonau sydd wedi eu henwi yn y feithrinfa sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu a chydlynu materion amddiffyn plant a lles, sef y Cydlynydd Diogelu Dynodedig (CDD). Mae o leiaf un person dynodedig ar ddyletswydd gydol yr amser pan fo’r lleoliad ar agor.

Bydd y personau dynodedig yma yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr o leiaf bob dwy flynedd ac yn diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.

Os yw'r staff o'r farn nad yw pryder diogelu yn cael sylw dyledus yn y lleoliad, fe'u hanogwn i gysylltu â'r BLlDP neu linell chwythu'r chwiban NSPCC er mwyn amddiffyn y plant sydd yn eu gofal.

Mae CDD y feithrinfa yn cydlynu gyda’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) a thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, yn derbyn hyfforddiant penodol, gan gynnwys cwrs hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau yn y maes hwn. Yn eu tro maent yn cefnogi datblygiad parhaus ac yn trosglwyddo gwybodaeth i’r holl staff sydd ar y tîm.

Mae person wedi ei enwi gennym yn y feithrinfa sy’n arwain ar fod yn gyfrifol am ddiogelu ac sy’n cydlynu materion amddiffyn plant a lles, a elwir yn Gydlynydd Diogelu Dynodedig (CDD). Mae CDD y feithrinfa yn cysylltu gyda’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) a thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, yn derbyn hyfforddiant penodol, gan gynnwys cyrsiau hyfforddi ar amddiffyn plant ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch datblygiadau yn y maes hwn.

**O ran ymarfer gorau ac i sicrhau goruchwyliaeth ar bob achlysur, rydym wedi penodi dirprwy berson arweiniol. Mae hyn yn sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth uchel gydol yr amser.**

**Cydlynydd Diogelu/Amddiffyn Plant Dynodedig (CDD) y feithrinfa yw: Rebecca Bello**

**Dirprwy Gydlynydd Diogelu/Amddiffyn Plant Dynodedig (CDD) y feithrinfa yw: Amelia Alldridge**

**Rôl y CDD:**

- Sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn cael eu hadolygu a'u datblygu yn unol â chanllawiau cyfredol a datblygu dealltwriaeth staff o bolisïau diogelu'r lleoliad.
- Arwain ar ymateb i wybodaeth gan dîm y staff sy'n ymwneud â phryderon amddiffyn plant.
- Darparu cyngor, cymorth a chanllaw ar sail gyfredol i staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr.
- Adnabod plant a fydd o bosib angen cymorth cynnar neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.
- Helpu staff i sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cael ei darparu i deuluoedd
- Cysylltu gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant
- Sicrhau bod y lleoliad yn cwrdd â gofynion Diogelu y Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen.
- Sicrhau bod polisïau yn cyd-fynd â gweithdrefnau a manylion Diogelu Lleol
- Rhannu ymarfer, a diweddariadau i ddeddfwriaeth i sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o ran ymarfer diogelu.
- Rheoli a monitro damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau cyfredol a sicrhau bod cofnodion cywir a phriodol yn cael eu cadw.
- Mynychu cyfarfodydd gyda pherson allweddol y plentyn.
- Mynychu cynadleddau achos a chyfarfodydd diogelu allanol ar gais asiantaethau allanol.

**Mae'r feithrinfa yn diogelu plant a staff drwy:**

- Rydym yn darparu adnoddau staffio digonol a phriodol i gwrdd ag anghenion pob plentyn
- Mae'r ymgeiswyr hynny sy'n ceisio am swyddi yn y feithrinfa yn cael eu hysbysu bod swyddi wedi eu heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Hysbysir ymgeiswyr o'r angen i gynnal gwiriadau cyn cadarnha'r swydd. Pan fo ceisiadau yn cael eu gwrthod ar sail gwybodaeth a ddatgelwyd, mae gan yr ymgeiswyr hawl i gael gwybod fe gânt arweiniad i herio unrhyw wybodaeth sy'n anghywir
- Rydym yn rhoi cyfle cyson, yn ystod pob goruchwyliad a thrwy fod â pholisi drws agored, i staff/gwirfoddolwyr ddatgan newidiadau a allai effeithio'u haddasrwydd i edrych ar ôl plant. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am eu hiechyd, meddyginiaeth neu ynghylch newidiadau yn eu bywyd cartref megis a yw person sy'n byw gyda hwy wedi cyflawni trosedd neu wedi chwarae rhan mewn digwyddiad sy'n golygu eu bod wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant
- Mae'r wybodaeth hon hefyd i'w chael hefyd ym mhob contract aelodau staff, ac mae'n ofynnol iddynt arwyddo 2 gopi, un ar gyfer y cyflogwr, ac un ar eu cyfer hwy

- Rydym yn gofyn am wiriadau gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS) pob /neu rydym yn defnyddio gwasanaeth diweddaru'r DBS i ailwirio hanes troseddol staff a'u haddasrwydd i weithio gyda phlant ar yr un sail a chyda chydsyniad yr unigolyn.
- Rydym yn glynu at ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac unrhyw ganllawiau AGC/Estyn o ran gofyn am eirdaon a gwiriadau addasrwydd ar gyfer staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr, i sicrhau bod pob staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr syn gweithio yn y lleoliad yn addas i wneud hynny
- Rydym yn sicrhau ein bod yn derbyn o leiaf dau eirda ysgrifenedig CYN bo aelod newydd o staff yn dechrau gweithio gyda ni
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS manylach gyda gwiriad rhestri gwahardd (plant) ar fyfyrwyr cyn i'w cyfnod ddechrau yn y feithrinfa
- Nid yw gwirfoddolwyr, gan gynnwys myfyrwyr, yn gweithio heb oruchwyliaeth.
- Rydym yn glynu at ofynion Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006) a Deddf Gofal Plant 2006 mewn perthynas ag unrhyw berson sydd wedi eu heithrio o ddarparu gofal plant, sydd wedi eu diswyddo o'n cyflogaeth, neu sy'n ymddiswyddo mewn amgylchiadau a fyddai fel arall wedi arwain at ddiswyddo am resymau sy'n ymwneud â phryderon diogelwch plant drwy gydymffurfio gyda'r ddyletswydd honno i gyfeirio'r unigolyn hwnnw i'r DBS
- Mae gennym weithdrefnau ar gyfer cofnodi manylion ymwelwyr i'r feithrinfa ac yn cymryd camau diogelwch i sicrhau fod gennym reolaeth dros bwy sy'n dod i mewn i'r feithrinfa, fel nad oes gan unrhyw berson diawdurdod fynediad at blant
- Mae pob ymwelydd/contractwr yn cael eu goruchwylio tra yn yr adeilad, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny y mae'r plant yn eu defnyddio
- Mae Polisi Ymddygiad Staff yn cyd-fynd â'r polisi hwn i'n galluogi i fonitro newidiadau mewn ymddygiad a allai beri pryder. Mae pob aelod o staff yn cefnogi'r polisi hwn i sicrhau bod unrhyw newid yn cael ei gyfeirio at sylw'r rheolwyr er mwyn inni fedru cefnogi'r aelod staff unigol a sicrhau nad oes cyfaddawdu o ran diogelwch y plant a'n gofal ohonynt.
- Mae'r staff yn gwybod nad ydynt i gysylltu â rhieni/gofalwyr plant drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain a byddent yn adrodd am unrhyw ddigwyddiadau i sylw'r tîm rheoli.
- Mae gan bob staff fynediad at, ac maent yn cydymffurfio â'r polisi chwythu'r chwiban a fydd yn eu galluogi i rannu unrhyw bryderon a allai godi ynghylch eu cydweithwyr mewn modd priodol gyda'r person a enwir (rhowch yr enw), neu i gynrychiolydd yr AGC pan fo hynny'n berthnasol. Rydym yn annog diwylliant o onestrwydd a thryloywder ac mae pob pryder yn cael ei gymryd o ddifrif.
- Rydym yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd gyda phob aelod o staff ble mae cyfle i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â phlant unigol, hyfforddiant amddiffyn plant ac unrhyw anghenion o ran cefnogaeth ychwanegol
- Mae'r ffordd y mae staff yn cael eu trefnu yn y feithrinfa yn golygu bod modd goruchwylio a chefnogi'n barhaus. Pan fo angen i blentyn dreulio amser oddi wrth weddill y grŵp, bydd y drws yn cael ei adael yn gilagored a bydd dulliau diogelu eraill ar waith i sicrhau diogelwch y plentyn a'r oedolyn.

Hefyd mae gennym ni bolisi Ffonau a Dyfeisiadau Electronig Eraill a pholisi Chyfryngau Cymdeithasol sy'n datgan sut y byddwn yn cadw plant yn ddiogel rhag y dyfeisiadau hyn tra yn y feithrinfa. Mae hyn hefyd yn cysylltu gyda'n polisi Diogelwch Ar-lein.

Mae gan ein meithrinfa ymrwymiad eglur i ddiogelu plant a hyrwyddo lles. Pe digwydd i unrhyw berson gredu nad yw'r polisi hwn yn cael ei gynnal, mae'n ddyletswydd arnynt i adrodd y mater i sylw y rheolwr/perchennog y feithrinfa/CDD/person cofrestredig cyn gynted ag y bo modd.

**Gwasanaethau Cymorth Cynnar**

Pan allai plentyn a/neu deulu elwa o gymorth ond nad ydynt yn cwrdd â'r trothwy ar gyfer Tîm Gofal Cymdeithasol Plant yr Awdurdod Lleol, bydd trafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r teulu ynglŷn â gwasanaethau Cymorth Cynnar.

Mae Cymorth Cynnar yn darparu cymorth cyn gynted â bod pryder/maes angen yn dod i'r amlwg, gan helpu i wella canlyniadau ac osgoi uwchgyfeirio i wasanaethau'r Awdurdod Lleol. Weithiau efallai nad yw pryderon ynghylch plentyn yn ymwneud â diogelu ac mae'n yn ymwneud fwy â'u hamgylchiadau teuluol unigol. Bydd y feithrinfa yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr i adnabod, gyda'ch cydsyniad, unrhyw wasanaethau cymorth cynnar a all fod o fudd i'r plentyn neu eich amgylchiadau unigol. Gall hyn fod yn gymorth teulu, cymorth banc bwyd, gwasanaethau cwnsela neu rianta.

**Gweithwyr cyflogedig, myfyrwyr neu wirfoddolwyr y feithrinfa neu unrhyw berson arall sy'n byw neu'n gweithio yn adeilad y feithrinfa**

Mae gennym Bolisi Ymddygiad Staff i'n cefnogi i fonitro staff a newid i'w cymeriad. Mae staff yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu unrhyw newid i'w hamgylchiadau ac i ddefnyddio'r polisi chwythu'r chwiban pan fo angen.

**Diogelwch Ar-lein**

Rydym yn rhoi pwys mawr ar ddiogelwch ein plant ac mae hyn yn cynnwys eu diogelwch ar-lein. Gweler y polisi Diogelwch Ar-lein am ragor o fanylion ynghylch hyn.